WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

Archwilydd Cyffredinol Cymru
Auditor General for Wales

# Adroddiad Archwilio Blynyddol 2018 – **Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru**


Blwyddyn archwilio: 2017-18

Dyddiad cyhoeddi: Rhagfyr 2018

Cyfeirnod y ddogfen: 928A2018-19

Paratowyd y ddogfen hon fel rhan o’r gwaith a gyflawnir yn unol â swyddogaethau statudol.

Os gwneir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.
Mae Cod adran 45 yn nodi sut y disgwylir i awdurdodau cyhoeddus ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partïon perthnasol. O ran y ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru yn drydydd partïon perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Swyddfa Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Mae’r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg. This document is also available in English.

Paratowyd y ddogfen hon ar ran yr Archwilydd Cyffredinol gan Dave Thomas, Anthony Veale, Michelle Phoenix, Fflur Jones a Sharon Jeffries.

# Cynnwys


Adroddiad Archwilio Blynyddol

Ynghylch yr adroddiad hwn 4

Y prif negeseuon 5

Archwiliad o'r cyfrifon 6

Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18 6

Rwyf hefyd wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth 8

Y trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus 8

Er bod rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'n sylweddol, mae lle i gryfhau'r trefniadau mewn rhai meysydd pwysig 9

Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth strategol glir, mae'n parhau i lunio strategaeth hirdymor, ac mae'n bwriadu gwella'r cynlluniau ategol a sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd 10

Ceir ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon, ond mae angen cryfhau'r dull strategol o ddefnyddio asedau a mynd i'r afael â'r problemau hirsefydledig o ran absenoldeb oherwydd salwch 11

Canfu fy ngwaith arall rai enghreifftiau o arfer da, yn ogystal â chyfleoedd i gryfhau rhai o'r trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, darbodaeth ac effeithiolrwydd 13

Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau 15

Atodiadau

Atodiad 1 – adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf 16

Atodiad 2 – ffi archwilio 17

# Ynghylch yr adroddiad hwn

1 Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi canfyddiadau'r gwaith archwilio yr wyf wedi ymgymryd ag ef yn Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaethau Ambiwlans Cymru (yr Ymddiriedolaeth) yn ystod 2018. Bu imi ymgymryd â'r gwaith hwn i gyflawni fy nghyfrifoldebau o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004. Yn unol â'r Ddeddf, mae'n ofynnol imi:

a) archwilio ac ardystio'r cyfrifon a gyflwynwyd imi gan yr Ymddiriedolaeth, a'u gosod gerbron y Cynulliad Cenedlaethol;

b) fy modloni fy hun bod y gwariant a'r incwm y mae'r cyfrifon yn gysylltiedig â nhw wedi'u defnyddio at y dibenion arfaethedig ac yn unol â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu;

c) fy modloni fy hun bod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud trefniadau priodol i sicrhau ei bod yn defnyddio ei hadnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus.

2 Trafodir canfyddiadau fy ngwaith o dan y penawdau a ganlyn:

- Y prif negeseuon
- Archwiliad o'r cyfrifon
- Y trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

3 Rwyf wedi cyflwyno sawl adroddiad i'r Ymddiriedolaeth eleni. Mae'r negeseuon a geir yn yr Adroddiad Archwilio Blynyddol hwn yn crynhoi'r materion a gyflwynwyd yn yr adroddiadau manylach hynny. Ceir rhestr ohonynt yn Atodiad 1.

4 Mae Atodiad 2 yn cyflwyno'r amcangyfrif diweddaraf o'r ffi archwilio y bydd angen imi ei chodi ar gyfer costau gwirioneddol fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth, ochr yn ochr â'r ffi a nodwyd yng Nghynllun Archwilio 2018.

5 Mae'r Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Cyllid wedi cytuno ar gywirdeb ffeithiol yr adroddiad hwn a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ar 6 Rhagfyr 2018. Cyflwynir yr adroddiad i'r Bwrdd yn un o'i gyfarfodydd nesaf a bydd pob aelod yn cael copi ohono. Rydym yn annog yr Ymddiriedolaeth yn gryf i drefnu i gyhoeddi'r adroddiad hwn yn ehangach. Ar ôl i'r Bwrdd ei ystyried, byddwn yn sicrhau bod yr adroddiad ar gael i'r cyhoedd ei weld ar wefan Swyddfa Archwilio Cymru.

6 Hoffwn ddiolch i staff ac aelodau'r Ymddiriedolaeth am eu cymorth a'u cydweithrediad yn ystod y gwaith archwilio y mae fy nhîm wedi ymgymryd ag ef dros y 12 mis diwethaf.

# Y prif negeseuon

## Archwiliad o'r cyfrifon

7 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir, ac ni wnaeth fy ngwaith bennu unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon. Gan hynny, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch y modd y cawsant eu paratoi.

8 Nid oedd unrhyw drafodiadau ariannol materol yng nghyfrifon 2017-18 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn cydymffurfio â'r awdurdodau ac, o'r herwydd, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol a geir yng nghyfrifon 2017-18.

9 Bu i'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ac mae ganddi gynllun strategol tair blynedd cymeradwy. O'r herwydd, nid oedd unrhyw faterion yr oedd yn angenrheidiol tynnu sylw atynt, felly ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth.

## Y trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

10 Canfu fy ngwaith yn yr Ymddiriedolaeth o ran Asesiad Strwythuredig 2018:

- y dylai'r Ymddiriedolaeth geisio mynd i'r afael yn gyflymach â'r bylchau a'r gwendidau y mae'n gwybod amdanynt mewn rhai agweddau ar ei threfniadau llywodraethu;
- bod yr Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth strategol glir, ei bod yn parhau i lunio strategaeth hirdymor, a'i bod yn bwriadu gwella'r cynlluniau ategol a sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd;
- bod ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon, ond bod angen defnyddio asedau mewn ffordd fwy strategol a mynd i'r afael â'r problemau hirsefydledig o ran absenoldeb oherwydd salwch.

11 Bu imi adolygu'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth wedi ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Er nad yw'n gorff sydd wedi'i restru yn y ddeddfwriaeth, canfuwyd bod yr Ymddiriedolaeth wedi manteisio ar y cyfleoedd a ddarperir gan y Ddeddf. Fodd bynnag, mae'n gwybod bod angen iddi wneud mwy i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio.

12 Mae'r Ymddiriedolaeth yn cymryd rhan yn y Fenter Twyll Genedlaethol ac mae wedi gwneud defnydd da o'r parau data a ryddhawyd yn 2017.

13 Trafodir y prif negeseuon uchod ymhellach yn yr adrannau a ganlyn.

# Archwiliad o'r cyfrifon

14 Mae'r adran hon yn crynhoi canfyddiadau fy archwiliad o ddatganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18. Drwy'r datganiadau hyn, mae'r sefydliad yn dangos ei berfformiad ariannol ac yn nodi ei gostau gweithredol net, ei enillion a'i golledion cydnabyddedig, a'i lifau arian. Mae paratoi datganiadau ariannol yn elfen hanfodol i alluogi'r sefydliad i ddangos ei fod yn gwarchod arian cyhoeddus yn briodol.

15 Wrth bwyso a mesur datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth, mae'n ofynnol imi roi barn ar y materion a ganlyn:

- a ydynt yn rhoi darlun teg a chywir o sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth a'i hincwm a'i gwariant yn ystod y cyfnod o dan sylw;
- a ydynt wedi'u paratoi yn unol â'r gofynion statudol a gofynion eraill, ac a ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion perthnasol o ran cyflwyno a datgelu cyfrifon;
- a yw'r rhan honno o'r adroddiad ariannol a archwilir wedi'i pharatoi'n briodol;
- a yw'r wybodaeth arall a ddarparwyd ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol (sef y Datganiad Llywodraethu Blynyddol, y Rhagair a'r Adroddiad Atebolrwydd) yn gyson â nhw;
- rheoleidd-dra'r gwariant a'r incwm a nodir yn y datganiadau ariannol.

16 Wrth roi'r farn hon, rwyf wedi cydymffurfio â'm Cod Ymarfer Archwilio a'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio.

## Rwyf wedi rhoi barn ddiamod ar gywirdeb a pharatoad priodol datganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer 2017-18

17 Rwyf wedi dod i'r casgliad bod cyfrifon yr Ymddiriedolaeth wedi'u paratoi'n briodol a'u bod yn faterol gywir, ac ni wnaeth fy ngwaith bennu unrhyw wendidau sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth sy'n berthnasol i'm harchwiliad o'r cyfrifon. Gan hynny, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch y modd y cawsant eu paratoi.

18 Yn gyffredinol, daeth gwybodaeth i law mewn modd prydlon a defnyddiol ac ni roddwyd unrhyw gyfyngiadau ar ein gwaith. Nodwyd hefyd fod yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud gwelliannau sylweddol yn 2017-18. Roeddem yn falch o nodi bod yr Ymddiriedolaeth wedi ymateb yn gadarnhaol i'r argymhellion a wnaed gennym yn sgil ein hadolygiad o ddatganiadau ariannol 2016-17. Mae hyn wedi arwain at welliannau o ran y papurau gweithio sy'n ategu'r datganiadau ariannol ac o ran ansawdd y cyfrifon drafft. O ran ansawdd y papurau gweithio, roedd un eithriad, a hynny o ran yr asedau sefydlog. Cyfeirir at hyn yn Arddangosyn 1 isod.

19 Bu imi adolygu'r rheolaethau mewnol hynny yr oeddwn yn tybio eu bod yn berthnasol i'r archwiliad i'm cynorthwyo i bennu'r risgiau o gamddatganiadau sylweddol yn y cyfrifon, eu hasesu ac ymateb iddynt. Ni fu imi eu hystyried at ddibenion rhoi barn ar effeithiolrwydd gweithredol y rheolaethau mewnol. Ni wnaeth

fy adolygiad bennu unrhyw ddiffygion sylweddol o ran rheolaethau mewnol yr Ymddiriedolaeth.

20 Mae'n ofynnol imi roi gwybod i'r rheini sy'n gyfrifol am lywodraethu am unrhyw faterion sy'n codi o'm gwaith, a hynny cyn imi gyhoeddi fy marn archwilio ynghylch y cyfrifon. Rhoddodd yr Arweinydd Ymgysylltu Archwilio Ariannol adroddiad i Bwyllgor Archwilio'r Ymddiriedolaeth am y materion hyn ar 24 Mai 2018. Mae Arddangosyn 1 yn crynhoi'r prif faterion a nodwyd yn yr adroddiad hwnnw.

### Arddangosyn 1: materion a bennwyd yn yr Adroddiad ar yr Archwiliad o'r Datganiadau Ariannol

Mae'r tabl a ganlyn yn crynhoi'r prif faterion a bennwyd ac yn rhoi sylwadau arnynt.

| Mater | Sylwadau'r archwilwyr |
|---|---|
| Camddatganiadau nas cywirwyd | Ni phennwyd unrhyw gamddatganiadau yn y datganiadau ariannol nad ydynt wedi'u cywiro. |
| Camddatganiadau a gywirwyd | Bu i'r rheolwyr gywiro nifer o gamddatganiadau ac fe dynnwyd sylw'r Pwyllgor Archwilio atynt ym mis Mai 2018. Roedd y camddatganiadau hyn yn ymwneud yn bennaf â'r nodiadau datgelu a ddarparwyd ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol. Nid oedd y newidiadau hyn yn effeithio ar sefyllfa ariannol yr Ymddiriedolaeth, sef gwarged o £70,000 fel y'i nodwyd yn y datganiadau ariannol drafft. |
| Materion eraill o bwys | Er nad oedd anawsterau mawr, daethpwyd ar draws problemau yn y papurau gweithio a ddarparwyd i ategu datgeliad yr asedau sefydlog yn y datganiadau ariannol. |

24 Disgwylir cwblhau fy archwiliad annibynnol o ddatganiadau ariannol y cronfeydd elusennol ym mis Rhagfyr 2018. Ar sail ein gwaith hyd yma, nid oes unrhyw broblemau mawr yn dod i'r amlwg.

## Rwyf hefyd wedi rhoi barn archwilio ddiamod ar reoleidd-dra'r trafodiadau ariannol yn natganiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth

Nid oedd unrhyw drafodiadau ariannol materol yng nghyfrifon 2017-18 yr Ymddiriedolaeth nad oeddent yn cydymffurfio â'r awdurdodau ac, o'r herwydd, rwyf wedi cyhoeddi barn ddiamod ynghylch rheoleidd-dra'r trafodiadau ariannol a geir yng nghyfrifon 2017-18

25 Rhaid i drafodiadau ariannol yr Ymddiriedolaeth gydymffurfio â'r awdurdodau sy'n eu llywodraethu. Rhaid bod ganddi'r pwerau i dderbyn yr incwm a ddaeth i law ac i ysgwyddo'r gwariant yr aethpwyd iddo. Mae ein gwaith yn adolygu'r pwerau hyn ac yn profi nad oes unrhyw ran faterol o'r incwm na'r gwariant nad oes gan yr Ymddiriedolaeth bwerau i'w derbyn neu i'w hysgwyddo.

Bu i'r Ymddiriedolaeth sicrhau cydbwysedd ariannol ar gyfer y cyfnod tair blynedd a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018 ac mae ganddi gynllun strategol tair blynedd cymeradwy. O'r herwydd, nid oedd unrhyw faterion yr oedd yn angenrheidiol tynnu sylw atynt, felly ni roddwyd unrhyw adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth

26 Mae gennyf bŵer i roi adroddiad o sylwedd ar gyfrifon yr Ymddiriedolaeth ochr yn ochr â'm safbwyntiau os ydwyf am dynnu sylw at faterion penodol. Gan fod yr Ymddiriedolaeth wedi bodloni ei dwy ddyletswydd ariannol a chan nad oedd unrhyw faterion eraill yr oedd modd cyfiawnhau adrodd arnynt, ni chyhoeddais adroddiad o sylwedd ar y cyfrifon.

27 Fel y nodir uchod, mae'r Ymddiriedolaeth wedi bodloni ei dyletswydd ariannol i fantoli'r cyfrifon dros y tair blynedd rhwng 2015-16 a 2017-18. Dywedodd yr Ymddiriedolaeth fod ganddi warged gadwedig o £49,000 yn 2015-16, £44,000 yn 2016-17 a £70,000 yn 2017-18.

# Y trefniadau i sicrhau bod adnoddau'n cael eu defnyddio mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus

28 Mae arnaf ddyletswydd statudol i'm bodloni fy hun fod cyrff y GIG wedi rhoi trefniadau priodol ar waith i sicrhau eu bod yn defnyddio eu hadnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Rwyf wedi cyflawni gwaith archwilio perfformiad amrywiol yn yr Ymddiriedolaeth yn ystod y 12 mis diwethaf i'm cynorthwyo i gyflawni'r ddyletswydd hon. I gyflawni'r gwaith hwn, rwyf wedi:

- asesu effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu a sicrwydd yr Ymddiriedolaeth;
- adolygu'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i gynllunio'n strategol;
- pwyso a mesur y trefniadau sydd ar waith i reoli cyllid, gweithlu, asedau a threfniadau caffael yr Ymddiriedolaeth;

- ymgymryd â gwaith penodol ynghylch defnyddio adnoddau o ran rhoi egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol ar waith;
- adolygu trefniadau'r Ymddiriedolaeth i dracio cynnydd o ran argymhellion archwiliadau allanol;
- asesu'r defnydd o'r parau data fel rhan o'r Fenter Twyll Genedlaethol.

29 Nodir fy nghasgliadau ar sail y gwaith hwn isod.

Er bod rhai agweddau ar drefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth wedi gwella'n sylweddol, mae lle i gryfhau'r trefniadau ymhellach mewn rhai meysydd pwysig. Bu fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn pwyso a mesur trefniadau llywodraethu'r Ymddiriedolaeth, y modd y mae'r Bwrdd a'i is-bwyllgorau'n ymgymryd â'u gwaith, a'r graddau y mae'r strwythurau trefniadol yn cefnogi llywodraethu da ac atebolrwydd clir. Bu hefyd yn ystyried yr wybodaeth y mae'r Bwrdd a'i bwyllgorau yn ei chael i'w helpu i oruchwylio a herio perfformiad ac i fonitro'r camau i gyflawni amcanion y sefydliad. Bu imi ganfod yr hyn a ganlyn:

30 **Mae bwriad i fynd i'r afael â'r gwendidau o ran yr wybodaeth a ddarperir i'r Bwrdd a'i bwyllgorau ac o ran cylch busnes yr Ymddiriedolaeth.** Mae'r Bwrdd yn gweithredu'n effeithiol ar y cyfan, ac mae aelodau'r Bwrdd yn cymryd rhan mewn rhaglen ddatblygu gynhwysfawr. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'r heriau a bennwyd o ran y modd y mae cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau'n cael eu cynnal drwy gynyddu amlder cyfarfodydd y Bwrdd fel rhan o adolygiad ehangach o lwyth gwaith y Bwrdd a'r pwyllgorau. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys camau i resymoli swm yr wybodaeth a ddarperir ar gyfer cyfarfodydd y Bwrdd a'r pwyllgorau ac i gryfhau'r gwaith o reoli agendâu. Yn sgil adolygiad o lwyth gwaith y pwyllgorau, bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn cyflwyno pwyllgor ychwanegol yn 2018. Yn fy adroddiad am ganfyddiadau'r asesiad strwythuredig, tynnais sylw hefyd at y cyfle i adolygu'r broses o gyflawni 'camau gweithredu'r Cadeirydd' rhwng cyfarfodydd y Bwrdd er mwyn mynd i'r afael â materion penodol.

31 **Mae Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd yn dal i ddatblygu, ac er bod y gweithdrefnau risg yn gydlynus, nid ydynt yn cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i ddatblygu Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd. Fodd bynnag, mae defnyddioldeb Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd fel offeryn sicrwydd yn dibynnu ar aeddfedrwydd trefniadau rheoli risg yr Ymddiriedolaeth. Er bod camau'n cael eu cymryd i gryfhau'r gweithdrefnau rheoli risg, mae'r modd y maent yn cael eu rhoi ar waith yn dal i fod yn anghyson, ac mae lle i gytuno ar ddealltwriaeth gyffredin o'r risgiau ac i gryfhau'r broses o'u goruchwylio a'u rheoli ar hyd a lled y sefydliad.

32 **Mae angen gwneud mwy o waith i gryfhau system sicrwydd yr Ymddiriedolaeth, yn enwedig o ran defnyddio archwiliadau clinigol.** Mae fframwaith llywodraethu ansawdd manwl ar waith, a dylai'r cynlluniau i adolygu'r strategaeth ansawdd, sydd ddwy flynedd heibio i'w dyddiad terfyn, ei ategu ymhellach. Yn ystod yr haf 2018, cynhaliodd tîm o gyfarwyddwyr anweithredol yr Ymddiriedolaeth adolygiad o ddigwyddiadau niweidiol difrifol, a bu iddynt bennu

argymhellion a chamau gwella. Fodd bynnag, mae gwendidau'n parhau o ran y sicrwydd a geir o raglen archwilio clinigol ac effeithiolrwydd yr Ymddiriedolaeth. Er bod yr Ymddiriedolaeth yn parhau i adolygu ac i ddiweddaru ei pholisïau gan ddefnyddio proses gynhwysfawr, roedd Fframwaith Sicrwydd y Bwrdd ym mis Medi'n nodi bod nifer sylweddol o'r polisïau heibio i'w dyddiadau terfyn. Mae lle hefyd i wella'r ymwybyddiaeth o ddeddfwriaeth newydd a'r sicrwydd bod yr Ymddiriedolaeth yn cydymffurfio â deddfwriaeth newydd a pholisïau cenedlaethol. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud nifer o newidiadau cadarnhaol i'r system tracio argymhellion archwilio. Trafodir hyn ymhellach ym mharagraff 48.

33 **Bydd angen rheoli effaith y trosiant sylweddol ar lefel swyddogion gweithredol a sicrhau bod digon o gapasiti yn swyddogaethau corfforaethol yr Ymddiriedolaeth i gefnogi prosesau busnes allweddol.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i reoli newidiadau sylweddol i'r Tîm Rheoli Gweithredol yn ystod 2018. Mae capasiti'r swyddogaethau corfforaethol yn dal i fod dan bwysau ac mae'n bosibl bod y modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd ati i reoli swyddi gwag anweithredol fel rhan o'i thargedau arbed blynyddol yn dwysáu'r sefyllfa.

## Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth strategol glir, mae'n parhau i lunio strategaeth hirdymor, ac mae'n bwriadu gwella'r cynlluniau ategol a sicrhau eu bod yn gydnaws â'i gilydd

34 Bu fy ngwaith yn pwyso a mesur sut y mae'r Bwrdd yn ymgysylltu â phartneriaid ac yn pennu cyfeiriad strategol y sefydliad. Bu hefyd yn asesu i ba raddau y mae'r Ymddiriedolaeth yn cynllunio camau i gyflawni ei hamcanion, a oes digon o gysylltiad rhwng y cynlluniau hyn, a sut y mae'r cynnydd a wneir i roi'r cynlluniau ar waith yn cael ei fonitro. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

35 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi pennu gweledigaeth strategol glir ac mae'n parhau i lunio strategaeth hirdymor.** Ceir gweledigaeth strategol glir ar gyfer y sefydliad, a dywedodd aelodau'r Bwrdd eu bod yn teimlo eu bod yn chwarae rhan fawr yn y broses o bennu gweledigaeth y sefydliad. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd yn llunio gweledigaeth hirdymor fel rhan o'i strategaeth hirdymor (y Strategaeth) ar gyfer 2019-30. Er bod y Strategaeth yn gyfle i'r Ymddiriedolaeth ddiffinio a disgrifio ei huchelgais ar gyfer y sefydliad, mae'n anorfod y bydd cynlluniau ei chomisiynwyr yn dylanwadu ar ei chynlluniau cyflenwi.

36 **Lluniodd yr Ymddiriedolaeth gynllun tymor canolig integredig cymeradwy ar gyfer 2018-2021 ac mae'n bwriadu gwella eglurder a chadernid y cynlluniau ategol.** Yn ystod 2018, lluniodd yr Ymddiriedolaeth Gynllun Tymor Canolig Integredig (y Cynllun) cymeradwy yn unol â'r amserlen ofynnol am y drydedd flwyddyn o'r bron. Mae'r Cynllun yn cynnwys camau gweithredu strategol, uchelgeisiau perfformiad a chynllun ariannol yr Ymddiriedolaeth, ond byddai modd i rai o'r bwriadau perfformiad fod yn fwy uchelgeisiol. Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn ymrwymo i ddysgu o broblemau cynllunio yn y gorffennol, ac mae'n gwella ei phroses gynllunio i gryfhau cynlluniau ategol megis ei strategaeth ansawdd.

37 **Mae gan yr Ymddiriedolaeth broses drylwyr i fonitro'r camau i roi ei Chynllun Tymor Canolig Integredig ar waith ac i barhau i wella'r dull o reoli prosiectau, ond mae hynt y newid yn effeithio ar y gwaith o gyflawni ei chamau gweithredu strategol.** Mae proses gadarn yn ei lle i fonitro'r camau i roi'r Cynllun ar waith, gan gynnwys cryfhau trefniadau Grŵp Sicrwydd Cyflenwi'r Cynllun i oruchwylio'r Cynllun. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynd i'r afael â'r problemau o ran cyflawni'r camau gweithredu sy'n gysylltiedig â chapasiti ac adnoddau drwy lunio fframwaith rheoli prosiectau i sicrhau bod prosiectau'n cael eu rhoi ar waith mewn ffordd gyson. Mae hefyd yn bwriadu cyflwyno hyfforddiant perthnasol yn 2019-20.

## Ceir ymrwymiad cryf i fod yn fwy effeithlon, ond mae angen defnyddio asedau mewn ffordd fwy strategol a mynd i'r afael â'r problemau hirsefydledig o ran absenoldeb oherwydd salwch

38 Bu fy ngwaith ar yr asesiad strwythuredig yn pwyso a mesur trefniadau'r Ymddiriedolaeth i reoli ei gweithlu, ei chyllid a'i hasedau ffisegol eraill i'w chynorthwyo i ddefnyddio ei hadnoddau mewn ffordd effeithlon, effeithiol a darbodus. Bu hefyd yn ystyried y trefniadau i gaffael nwyddau a gwasanaethau, ynghyd â'r camau sy'n cael eu cymryd i sicrhau cymaint o effeithlonrwydd a chynhyrchiant â phosibl. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

39 **Mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud cynnydd sylweddol o ran recriwtio i'w gweithlu parafeddygol ac mae'n datblygu i fod yn sefydliad mwy strategol o ran dysgu a datblygu a chynllunio'r gweithlu. Fodd bynnag, nid yw wedi gwneud y cynnydd arfaethedig o ran arfarniadau blynyddol a lleihau'r lefelau absenoldeb oherwydd salwch.** Ddiwedd 2017, dewisodd y rhan fwyaf o barafeddygon yr Ymddiriedolaeth drosglwyddo i fand tâl chwech a gweithio i gyflawni'r cymwyseddau gofynnol. Mae'r Ymddiriedolaeth wrthi'n tracio manteision y newid hwn. Mae'r gwelliannau i'r prosesau recriwtio a'r defnydd parhaus o ddigwyddiadau recriwtio 'Big Bang' yn cael effaith arbennig o gadarnhaol o ran recriwtio parafeddygon. Mae'r Ymddiriedolaeth yn cryfhau ei threfniadau i gynllunio'r gweithlu drwy lunio pecyn cymorth. Os bydd pob adran yn mynd ati i'w ddefnyddio mewn ffordd gyson, bydd yn cynorthwyo'r Ymddiriedolaeth i gynllunio'r gweithlu ac i gyflawni ei chynlluniau strategol ehangach. Serch hynny, mae absenoldeb oherwydd salwch yn dal i fod yn broblem fawr ac, er iddi gymryd nifer o gamau, gan gynnwys cyflwyno Rhaglen Rheoli Risg Trawma ac ennill nod aur y Safon Iechyd Corfforaethol, cyfradd absenoldeb oherwydd salwch yr Ymddiriedolaeth yw'r waethaf yng Nghymru o hyd. Bwriedir cymryd nifer o gamau eraill yn ystod 2018-19 i geisio mynd i'r afael â'r gyfradd absenoldeb oherwydd salwch. Mae gan yr Ymddiriedolaeth gynllun uchelgeisiol i drawsnewid hyfforddiant ac addysg ar gyfer ei staff ac mae cydymffurfiaeth â'r gofynion hyfforddi statudol a gorfodol wedi gwella. Serch hynny, er bod cyfraddau cwblhau'r Arfarniadau Perfformiad ac Adolygiadau Datblygu yn gwella, maent yn parhau i fod yn is na'r targed ac mae lle i bennu anghenion hyfforddi unigolion, a mynd i'r afael â nhw, yn ffurfiol.

40 **Mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i gynnal cydbwysedd ariannol ac i gyrraedd ei thargedau o ran arbedion ariannol, ond mae angen gwell perchnogaeth dros gaffael.** Fel y nodir ym mharagraff 27, mae’r Ymddiriedolaeth yn parhau i fodloni ei dyletswyddau ariannol. Yn gyffredinol, gall yr Ymddiriedolaeth ddangos ei bod yn dibynnu llai ar arbedion anghylchol ers 2015-16, ond mae angen iddi ystyried ei dibyniaeth ar swyddi gwag anweithredol o flwyddyn i flwyddyn. Mae gan yr Ymddiriedolaeth drefniadau monitro ariannol sydd wedi ennill eu plwyf ar lefel weithredol ac ar lefel strategol. Mae Partneriaeth Cydwasanaethau GIG Cymru’n ymgymryd â gweithgareddau caffael ar ran yr Ymddiriedolaeth ac mae gennyf rai pryderon cyffredinol ynghylch lefel y berchnogaeth o'r gweithgareddau caffael hyn, a'r craffu arnynt, yn yr Ymddiriedolaeth i sicrhau bod ei disgwyliadau’n glir ac yn cael eu gwireddu. Fodd bynnag, cydnabyddir bod yr Ymddiriedolaeth wedi mynd i'r afael â gweithgareddau caffael penodol, fel rhoi’r dull cenedlaethol ‘Dim Archeb Brynu, Dim Tâl’ ar waith, ac mae papurau am achosion busnes pwysig yn cynnwys gwybodaeth am gaffael yn rheolaidd.

41 **Mae’r Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i reoli galw yn unol â’r llwybr gofal ambiwlans ac mae arwyddion calonogol bod y sefyllfa’n gwella.** Yn ystod 2017 a 2018, bu’r Ymddiriedolaeth yn llunio ac yn treialu nifer o fentrau i wella llif cleifion drwy drin cwsmeriaid yn ystod camau cynharach y llwybr gofal ambiwlans pum cam. Roedd hyn yn cynnwys defnyddio Ymarferwyr Parafeddygol Uwch a rhaglen Gwella Cwympiadau ac mae’r data’n dangos bod y treialon hyn wedi cael peth llwyddiant. Fodd bynnag, mae’n dal i fod yn her ariannu camau i gyflwyno prosiectau o’r fath ledled Cymru. Mae’r Ymddiriedolaeth hefyd yn parhau i’w chael yn anodd rhoi gwasanaethau ar waith yn ystod cyfnodau o bwysau aruthrol. Yn ystod y gaeaf 2017-18, cyrhaeddodd yr Ymddiriedolaeth statws 4 yn y Cynllun Gweithredu Uwchgyfeirio Adnoddau am y tro cyntaf yn ei hanes oherwydd ei bod yn ei chael yn anodd ymateb i alwadau. Mae’r ‘Adolygiad o Alwadau Oren’[1] a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn cynnwys argymhellion er mwyn i’r Ymddiriedolaeth a’i chomisiynwyr wella’r gwasanaeth a ddarperir i gleifion y mae eu galwadau’n cael eu categoreiddio fel rhai oren (difrifol ond heb fod yn bygwth bywyd).

42 **Mae lle i gryfhau’r modd y mae’r Ymddiriedolaeth yn rheoli asedau’n strategol.** Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Ymddiriedolaeth strategaeth na chynllun rheoli asedau trosfwaol. Ar hyn o bryd, mae grwpiau a byrddau penodol yn gyfrifol am y modd y cânt eu rheoli, heb lawer o gysondeb o ran y dulliau o wneud hynny. Mae’r Ymddiriedolaeth yn canolbwyntio ar lunio cofrestr asedau newydd a elwir yn gofrestr Rheoli Asedau Real. Dylai ddarparu gwybodaeth well i’r Ymddiriedolaeth, megis gwybodaeth am gostau cynnal a chadw sy’n ôl-gronni ac a yw’r asedau’n addas at eu diben. Dylai’r Ymddiriedolaeth ystyried manteision llunio strategaeth rheoli asedau drosfwaol i gysoni ymhellach y ffordd y mae’n defnyddio ei hasedau’n strategol ac i roi mwy o sicrwydd i aelodau’r Bwrdd.

[1] GIG Cymru: Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys: **Amber Review: A Review of Calls to the Welsh Ambulance Service Categorised as Amber**, Tachwedd 2018.

## Canfu fy ngwaith arall rai enghreifftiau o arfer da, yn ogystal â chyfleoedd i gryfhau rhai o'r trefniadau i sicrhau effeithlonrwydd, darbodaeth ac effeithiolrwydd

### Mae'r Ymddiriedolaeth wedi manteisio ar y cyfleoedd sy'n deillio o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, ond mae'n gwybod bod angen iddi wneud mwy i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei ffyrdd o weithio

43 Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 (y Ddeddf) yn ceisio creu'r Gymru y mae pob un ohonom am fyw ynddi yn awr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn nodi sut y mae'n rhaid i'r 44 corff cyhoeddus a restrir ynddi weithio a chydweithio yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Er nad yw'r Ymddiriedolaeth wedi'i rhestru yn y Ddeddf, mae wedi ymrwymo i ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei gwaith a bu fy ngwaith innau'n ystyried sut y mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu ar sail yr ymrwymiad hwn. Nodir fy nghanfyddiadau isod.

44 **Er nad yw'r Ymddiriedolaeth ymhlith y cyrff a restrir yn y Ddeddf, mae'n cydnabod manteision integreiddio'r egwyddor datblygu cynaliadwy i'w ffyrdd o weithio.** Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cydnabod y cyfleoedd a'r manteision sy'n deillio o'r Ddeddf a'r egwyddor datblygu cynaliadwy. Mae aelodau'r Tîm Gweithredol a'r Bwrdd ehangach wedi dweud bod yr egwyddor datblygu cynaliadwy yn darparu cyfleoedd i'r sefydliad gydweithio â'i phartneriaid mewn ffordd integredig i wella'r gwasanaethau a ddarperir i bobl Cymru.

45 **Gall yr Ymddiriedolaeth ddangos esiamplau o gynllunio gwasanaethau mewn ffordd gynaliadwy, ond nid yw'n rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith mewn ffordd systematig eto.** Mae'r Ymddiriedolaeth yn sylweddoli bod y rhain yn ddyddiau cynnar o ran llunio ei dull gweithredu. Mae wedi ystyried a chymhwyso'r egwyddor datblygu cynaliadwy wrth lunio ei strategaeth amgylcheddol, ei rhaglen amlinellol strategol ar gyfer ystadau, a'r modd y mae'n ymgysylltu ag agenda ehangach y byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Hyd yma, nid yw'r Ymddiriedolaeth wedi rhoi'r egwyddor datblygu cynaliadwy ar waith yn systematig o ran y modd y mae'n cynllunio ac yn gweithredu ei gwasanaeth. Oherwydd nad yw'n un o'r cyrff sydd wedi'u rhestru o dan y Ddeddf, mae mwy o amser i'r Ymddiriedolaeth ystyried sut i weithredu. Cefais fod yr Ymddiriedolaeth wedi ymrwymo i ddefnyddio'r cyfleoedd sy'n deillio o'r Ddeddf, ac mae wedi pennu amcanion cydweithredol i weithio mewn partneriaeth i gyflawni ei nodau. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi ymrwymo i adolygu ei hamcanion corfforaethol yn 2018-19 i ystyried yr egwyddor datblygu cynaliadwy a'r cynllun strategol ar gyfer GIG Cymru.

46 **Er gwaethaf capasiti cyfyngedig, mae'r Ymddiriedolaeth a'i chorff comisiynu'n datblygu eu dulliau er mwyn i'r Ymddiriedolaeth wneud y gorau o gyfleoedd y Ddeddf.** Mae cyfyngiadau o ran y capasiti'n debygol o fod yn rhwystr posibl i'r Ymddiriedolaeth o ran mabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn fewnol ac o ran ei gallu i ymgysylltu'n ystyrlon â phartneriaid niferus, er enghraifft y rheini sy'n aelodau o'r byrddau gwasanaethau cyhoeddus. Oherwydd nad yw'r Ymddiriedolaeth

wedi'i rhestru yn y Ddeddf, bydd angen iddi ddefnyddio dull pragmatig sy'n taro cydbwysedd rhwng capasiti ac adnoddau a'r manteision y gellir eu cael o fabwysiadu'r egwyddor datblygu cynaliadwy ac o ymgysylltu ag asiantaethau sy'n bartneriaid. Dylai'r bwriadau comisiynu y mae'r Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn eu rhoi i'r Ymddiriedolaeth helpu i lywio ac i lunio cynlluniau'r Ymddiriedolaeth. Mae'r Pwyllgor hwnnw'n bwriadu ymgorffori'r egwyddor datblygu cynaliadwy yn ei fwriadau comisiynu o 2019-20 ac mae'r Ymddiriedolaeth wedi mynegi ei hymrwymiad i weithio yn unol â'r bwriadau hyn.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd i fynd i'r afael â'm hargymhellion blaenorol, ond mae mwy i'w wneud

47 **Ym mis Medi 2018, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i wella fformat ei system tracio argymhellion archwilio a'r trefniadau i gofnodi'r camau a gymerir.** Cafodd y broses o gymeradwyo'r argymhellion a gwblhawyd ei chryfhau ac mae'n sicrhau bod mwy o eglurder o ran cofnodi'r camau a gymerir. Mae'r fersiwn newydd hefyd yn sicrhau ei bod yn haws i aelodau'r Pwyllgor Archwilio ddadansoddi'r argymhellion yn ôl blwyddyn, blaenoriaeth a chynnydd. Un o'm hargymhellion yn Asesiad Strwythuredig 2017 oedd y dylid sicrhau bod ymatebion y rheolwyr yn y system tracio argymhellion archwilio'n gliriach. Mae hyn wedi gwella hefyd. Fodd bynnag, canfuwyd nad yw'r wybodaeth a gofnodir yn y system tracio argymhellion archwilio'n hollol gyson â'n hadolygiad o gynnydd eleni. Er enghraifft, o ran yr argymhelliad y dylid gwella papurau'r Bwrdd a'r pwyllgorau, rwy'n sylwi bod papurau'n dal i gael eu dosbarthu'n hwyr, ac nad yw'r Bwrdd yn cael copi o gofnodion y Pwyllgor Gwasanaethau Ambiwlans Brys yn rheolaidd.

48 **Mae'r Ymddiriedolaeth yn parhau i wneud cynnydd i fynd i'r afael ag argymhellion fy Asesiad Strwythuredig blaenorol, ac mae'r rhan fwyaf ohonynt wedi'u cwblhau'n llwyr neu'n rhannol.** Rwyf wedi adolygu'r cynnydd a wnaed o ran yr argymhellion a gyflwynwyd i'r Ymddiriedolaeth yn 2016 a 2017. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud cynnydd da o ran y rhan fwyaf o'r argymhellion a wnaed gennyf yn 2016 a 2017. Yn sgil adolygu'r cynnydd a wnaed o ran deg argymhelliad 2016, mae'r Ymddiriedolaeth wedi cwblhau'r camau i'w cymryd o ran saith ohonynt ac mae'n parhau i fynd i'r afael â'r tri sy'n weddill.

49 Dangosodd yr adolygiad o'r cynnydd a wnaed o ran naw argymhelliad Asesiad Strwythuredig 2017 fod yr Ymddiriedolaeth, erbyn mis Medi 2018, wedi cwblhau'r camau i'w cymryd o ran tri ohonynt, ei bod yn mynd i'r afael â phump arall ond nad oedd wedi'u cwblhau eto, ac nad oedd yn angenrheidiol iddi gwblhau'r argymhelliad sy'n weddill eto. Ni wnaed llawer o gynnydd eleni eto o ran fy argymhellion y dylai'r Ymddiriedolaeth leihau absenoldeb oherwydd salwch a chydymffurfio â gofynion Cylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033[2]. Er bod yr Ymddiriedolaeth wedi cyflwyno mesurau i wella llesiant ei staff, fel y rhaglen Rheoli Risg Trawma (TRiM), nid ydynt

[2] Yn unol â Chylchlythyr Iechyd Cymru (2016) 033, mae'n ofynnol i'r Ymddiriedolaeth sicrhau bod yr holl wybodaeth benodedig ar gael i'r cyhoedd ei gweld.

hyd yma wedi arwain at leihau salwch ymhlith staff. Mae'r Ymddiriedolaeth hefyd wedi dweud ei bod yn bwriadu cydymffurfio â Chylchlythyr Iechyd Cymru erbyn mis Mawrth 2019.

50 Mae system tracio argymhellion archwilio'r Ymddiriedolaeth yn dweud ei bod wedi cwblhau'r ddau argymhelliad a wnaed fel rhan o'm gwaith dilynol o ran y materion a godwyd mewn gohebiaeth â'r Archwilydd Cyffredinol ac a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Archwilio ym mis Mawrth 2018. O hyn ymlaen, dylid cofnodi'r cynnydd a wneir o ran tri argymhelliad ein hadolygiad o'r modd y mae'r Ymddiriedolaeth yn ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (fel y'i disgrifir ym mharagraffau 44 i 47) yn y system tracio argymhellion.

## Mae'r Ymddiriedolaeth yn gwneud defnydd effeithiol o'r Fenter Twyll Genedlaethol i ganfod twyll a gordaliadau

51 Ymarfer paru data a gynhelir bob dwy flynedd yw'r Fenter Twyll Genedlaethol. Mae'n helpu i ganfod twyll a gordaliadau drwy baru data ar draws sefydliadau a systemau i helpu cyrff cyhoeddus i gael hyd i hawliadau neu drafodiadau a allai fod yn dwyllodrus neu'n wallus. Mae'n offeryn effeithiol iawn i ganfod ac atal twyll a gordaliadau ac i helpu sefydliadau i gryfhau eu trefniadau atal twyll a llygredd.

52 Daeth canlyniadau ymarfer paru data 2016 i law'r Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2017 ac roedd yn cynnwys 1,791 o barau data, gyda 105 o'r rheini'n 'barau a argymhellir'.[3] Yn Adroddiad Archwilio Blynyddol y llynedd, nodais nad oedd yr Ymddiriedolaeth wedi gwneud llawer o gynnydd o ran adolygu'r parau data erbyn mis Tachwedd 2017. Ers hynny, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penodi swyddog atal twyll ac mae wedi gwneud cynnydd sylweddol, gan adolygu 243 o barau data hyd yma a chanolbwyntio ar y parau a argymhellir yn gyntaf. Rwy'n tybio bod y gwaith a wnaed yn rhesymol ac yn gymesur.

53 Ym mis Hydref 2018, cyflwynodd y cyrff sy'n rhan o'r fenter ddata ar gyfer yr ymarfer paru data nesaf. Bydd canlyniadau'r ymarfer hwn ar gael yn gynnar yn 2019.

[3] Tybir bod 'parau a argymhellir' yn rhai risg uchel ac felly argymhellir y dylid eu blaenoriaethu i'w hadolygu'n gynnar.

# Atodiad 1

## Adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

### Arddangosyn 2: adroddiadau a gyhoeddwyd ers fy Adroddiad Archwilio Blynyddol diwethaf

Mae’r tabl isod yn rhestru’r adroddiadau a gyflwynwyd i’r Ymddiriedolaeth yn 2018.

| Adroddiad | Dyddiad |
|---|---|
| **Adroddiadau archwilio ariannol** | |
| Adroddiad ar yr Archwiliad o’r Datganiadau Ariannol | Mai 2018 |
| Barn ar y Datganiadau Ariannol | Mehefin 2018 |
| **Adroddiadau archwilio perfformiad** | |
| Asesiad Strwythuredig 2018 | Rhagfyr 2018 |
| Gwaith lleol - Ymgorffori egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol | Medi 2018 |
| **Adroddiadau eraill** | |
| Cynllun Archwilio 2018 | Mawrth 2018 |

### Arddangosyn 3: gwaith archwilio perfformiad sy’n dal i fynd rhagddo

Mae nifer o archwiliadau perfformiad yn dal i fynd rhagddynt yn yr Ymddiriedolaeth. Fe’u dangosir yn y tabl isod, ynghyd â’r dyddiadau y disgwylir cwblhau’r gwaith.

| Adroddiad | Dyddiad cwblhau disgwyliedig |
|---|---|
| Gwaith lleol – Gwybodaeth Rheoli Perfformiad | Disgwylir adroddiad drafft ddiwedd mis Mawrth 2019. |

# Atodiad 2

## Ffi archwilio

Roedd Cynllun Archwilio 2018 yn nodi ffi archwilio arfaethedig o £151,618.00 (ac eithrio TAW). Mae fy amcangyfrif diweddaraf o'r ffi wirioneddol, ar y sail bod rhywfaint o'r gwaith yn dal i fynd rhagddo, yn unol â'r ffi a nodwyd yn y braslun.

Wales Audit Office
24 Cathedral Road
Cardiff CF11 9LJ

Tel: 029 2032 0500
Fax: 029 2032 0600
Text phone.: 029 2032 0660

E-mail: info@audit.wales
Website: www.audit.wales

Swyddfa Archwilio Cymru
24 Heol y Gadeirlan
Caerdydd CF11 9LJ

Ffôn: 029 2032 0500
Ffacs: 029 2032 0600
Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru
Gwefan: www.archwilio.cymru